# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU**
**nos Fawrth Gorffennaf 30 2024**

**E 1.7.24 Presennol** : **Cynghorwyr :-**Trefor Jones; Aled Griffith ( Cadeirydd); Gwilym Jones; Carol Hayes; Michael Roberts; Dr Melfyn Edwards
Elfyn Lewis (Cadeirydd Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb)
Marian Roberts ( Clerc)
**E 2.7.24 Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr :- John Gwynedd Roberts (Is-Gadeirydd); Alwyn Gruffydd

Cyn dechrau'r cyfarfod yn ffurfiol roedd y Cadeirydd yn dymuno mynegi pob cydymdeimlad gyda theulu'r diweddar Dewi Lake – yn arbennig ei fab Dafydd Lake sydd wedi bod yn aelod o'r Cyngor Tref yn y gorffennol a'i frawd yng nghyfraith Cyng Dr Melfyn Edwards sydd yn aelod presennol dros ward Gest. Roedd cyfraniad Dewi Lake i fywyd diwylliannol ac addysgol ardal Porthmadog a Blaenau Ffestiniog yn aruthrol a bydd colled enfawr ar ei ôl yn sawl mudiad a chymdeithas yn lleol.

**Cae Pawb**

**E 3.7.24 Penderfynu ar gais gan Gadeirydd Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb i ofyn i denantiaid newydd am ernes er mwyn sicrhau bod y rhandir yn cael ei adael mewn cyflwr derbyniol pan fyddant yn penderfynu gadael y rhandir.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig a bydd y Clerc yn newid y rheolau yn syth.

**E 4.7.24 Penderfynu ar gais gan Gadeirydd Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb i drefnu cael gwasanaeth i strimmer Cae Pawb.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig a'r Cyngor Tref i dalu am y gwasanaeth a'r Clerc i wirio oed y strimmer yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Michael Roberts yn eilio.

**E 5.7.24 Penderfynu ar gais gan Gadeirydd Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb i roi cyfnod prawf o 3 mis i denantiaid newydd ac i ddychwelyd eu rhent os nad ydynt wedi gwneud unrhyw ymdrech i drin y rhandir yn ystod y cyfnod prawf.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig a'r Clerc i newid y rheolau a'r cytundebau yn briodol yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Michael Roberts yn eilio.

Penderfynwyd i ganiatau cais gan Elfyn Lewis i ychwanegu 2 eitem arall :-

**E 6.7.24 Penderfynu ar gais gan Gadeirydd Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb i newid blwyddyn talu o Ebrill / Ebrill i Ionawr / Ionawr.**
Eglurodd ei bod yn haws i rhywun roi'r gorau i'w randir ar ddiwedd y flwyddyn ac yn haws i'r tenant newydd gael dechrau ar y gwaith yn y gwanwyn.
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig a'r Clerc i yrru anfoneb 2025 yn Ebrill 2025 am 9 mis sef £15 ac wedyn am 12 mis cyfan (£20) yn Ionawr 2026 yn ôl cynnig Cyng Dr Mlefyn Edwards, Cyng Michael Roberts yn eilio.

**E 7.7.24**
Eglurodd Elfyn Lewis fod arian y Gymdeithas yn brin eleni gan fod cyfraniad ariannol y Cyngor Tref ac elusen Rebecca wedi lleihau yn sylweddol. Rhagwelir costau ariannol sylweddol er mwyn gwella cyflwr y ffordd i mewn i Cae Pawb a chan mai cyfrifoldeb y Cyngor Tref yw'r ffordd a'r llwybrau yng Nghae Pawb cytunwyd mai'r Cyngor Tref felly ddylai ysgwyddo'r baich ariannol am eu cynnal.
**Penderfynwyd :-** Elfyn Lewis i ymgynghori efo Pwyllgor Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb a pharatoi rhestr o welliannau sydd eu hangen yng Nghae Pawb a'i yrru ymlaen at y Clerc er mwyn ei gynnwys ar raglen cyfarfod llawn 10.9.24 yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Michael Roberts yn eilio.

Gadawodd Elfyn Lewis y cyfarfod.

**Llwybrau**

**E 8.7.24 Cyng Aled Griffith – Cynnig gwneud cais i Gyngor Gwynedd osod arwyddion ar lwybr newydd Peniel i lwybr y Cyt.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**E 9.7.24 Cyng Aled Griffith – Cynnig gwneud cais i Gyngor Gwynedd droi llwybr Peniel yn lwybr teithio beicio llesol a diogel o Dremadog i Borthmadog.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**Cae Bodawen**

**E 10.7.24 Diweddariad ar y broses o osod giât newydd ar y fynedfa.**
Er gofyn am ddyfynbris gan 3 chwmni dim ond 2 ddyfynbris ddaeth i law.
**Penderfynwyd :-** derbyn dyfynbris G.L.Jones a'r Clerc i holi os oes posib cael y giât a'r 'railings' yn goch a gwyrdd fel yr offer chwarae yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**Bryn Coffa**

**E 11.7.24 Diweddariad ar y broses o osod canllaw ar y grisiau.**
Yn ôl y Clerc bydd y gwaith yn dechrau ar 9.8.24.

**E 12.7.24 Llochesi Bws**
Yn ôl y Clerc mae lloches Morfa Bychan wedi cael 2 ffenestr newydd yn dilyn fandaleiddo'r safle yn ddiweddar a bydd Cyngor Gwynedd yn darparu arwydd 'Safle bws' newydd.

**E 13.7.24 Cerflun Mr. Madocks**
**Penderfynwyd :-** parhau'r trafodaethau efo Ffion Gwyn i lunio bwrdd gwybodaeth yn olrhain hanes Madocks a'r Clerc i holi Howard Bowcott ynglyn â'r posibilrwydd o atgyweirio cerflun Madocks.

**E 14.7.24 Syniadau i ddatblygu'r dref**
Roedd y Clerc wedi llunio'r tabl isod sy'n amlinellu'r prosiectau sydd ar y gweill:-

| | **Arlunydd** | **Cydlynydd** | **Gwybodaeth bellach** | **Cyfarfod nesaf** | |
|---|---|---|---|---|---|
| BWRDD GWYBODAETH MADOCKS | Ffion Gwyn | Clerc | | I'w drafod | |
| LLEWYRCH O'R LLECHI | Howard Bowcott | Haf Roberts | Adroddiad safle celf cyhoeddus | Pencei 23.7.24 | Maentwrog 8/24 |
| CYMUNEDOLI / GRYMUSO GWYNEDD | | Lindsey Ellis; Elin Pritchard; Pauline Williams; Clerc | Cynllun creu lle Savills | | |
| CYNLLUN CREU LLE | | Haydn Jones; Clerc | Taflen Wybodaeth Hannah Joyce | Blaenau Ffestiniog 1.8.24 | |

Dangoswyd hefyd mwy o fanylion am y prosiectau ar y sgrîn. Nodwyd bod pob prosiect ar wahân i un Ffion Gwyn wedi ei ariannu gan grantiau ac nad oes **dim costau i'r Cyngor Tref**.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.35

Marian Roberts (Clerc) 1.8.24